

Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
Cofnodion Cyfarfod Bwrdd Iechyd Heb eu Cadarnhau
 a gynhaliwyd ar 30 Mai 2023 am 9am, Zoom (ffrwd byw drwy YouTube)

Yn bresennol

Emma Woollett	Cadeirydd
Mark Hackett	Prif Weithredwr
Steve Spill	Is-gadeirydd
Christine Morrell	Cyfarwyddwr Therapiau a Gwyddor Iechyd
Darren Griffiths	Cyfarwyddwr Cyllid a Pherfformiad
Gareth Howells	Cyfarwyddwr ar gyfer Nyrsio a Phrofiad y Claf
Richard Evans	Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol
Pat Price	Aelod Annibynnol
Tom Crick	Aelod Annibynnol
Jean Church	Aelod Annibynnol
Nuria Zolle	Aelod Annibynnol

Hefyd yn bresennol:

Narissa Vaughan	Cyfarwyddwr Strategaeth Dros Dro
Debbie Eyitayo	Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol
Hazel Lloyd	Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol
Deb Lewis	Prif Swyddog Gweithredu
Matt John	Cyfarwyddwr Digidol
Richard Thomas	Cyfarwyddwr Craffter, Cyfathrebu ac Ymgysylltu
Andrew Jarret	Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Claire Mulcahy	Rheolwr Llywodraethu Corfforaethol

Rhif y Cofnod		Cam Gweithredu
102/23	CROESO A CHYFLWYNIADAU	
	<p>Croesawodd y cadeirydd bawb i'r cyfarfod.</p> <p>Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Jackie Davies, Aelod Annibynnol; Keith Lloyd, Aelod Annibynnol; Anne-Louise Ferguson, Aelod Annibynnol; Nicola Matthews, Aelod Annibynnol; Reena Owen, Aelod Annibynnol a Judith Vincent, Cyfarwyddwr Clinigol ar gyfer Fferylliaeth</p>	
103/23	DATGANIADAU O FUDDIANNAU	

	Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau	
104/23	CYNLLUN ADFER A CHYNALIADWYEDD	
	<p>Derbyniwyd adroddiad yn nodi diweddariad am y cynllun adfer a chynaliadwyedd diwygiedig.</p> <p>Wrth gyflwyno'r adroddiad, tynnodd Darren Griffiths sylw at y pwyntiau canlynol;</p> <ul style="list-style-type: none"> - Adroddodd Llywodraeth Cymru am nifer o ymholiadau am y cynllun, yn arbennig am feysydd fel arbedion, gofal iechyd parhaus sy'n lleihau cyfradd rhedeg, a rhagnodi gwariant a dewisiadau pellach y gall y Bwrdd Iechyd eu gwneud i wella'r rhagolwg ariannol neu roi sicrwydd ar hyder darpariaeth; - Roedd y tabl ar dudalen 13 yn dangos gwerth y cynllun gwreiddiol o £69.9 a gyflwynwyd yn seiliedig ar ragdybiaethau ar gyllid COVID-19, gostyngiad yn y gyfradd rhedeg a chyflawni arbedion; - Tynnwyd y cyllid lliniaru COVID-19 gwerth £21.1m o'r cynllun gan fod Llywodraeth Cymru bellach wedi cynghori nad yw'r cyllid hwn ar gael yn rhagor; - Fel rhan o graffu ar opsiynau a dewisiadau yn y cynllun, cytunwyd na fyddai dadgyfuno'r cytundeb lefel gwasanaeth digidol gyda Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg yn digwydd eleni, gan arbed £1.5m mewn costau cynlluniedig; - Hefyd, mae'r rhagdybiaethau am brisiau egni wedi'u diwygio i lawr gan £3m. Mae cyfuno colled y cyllid COVID-19 gyda'r ddau ostyngiad cost hyn yn rhoi diffyg arian diwygiedig o £86.6m; - Er mwyn cyrraedd ein cynllun diffyg arian, bydd y gostyngiadau cost canlynol yn angenrheidiol: gostyngiad cyfradd rhedeg o £27.9m; gostyngiad o £13.4m yng nghostau trosi COVID-19 a £22.2m o arbedion cyflawni sy'n adio hyd at £63.5m mewn gostyngiadau cost (neu risg) er mwyn ein cael i'r sefyllfa o ddiffyg; - Hyd heddiw, mae'r risg ganfyddedig o £63.5m wedi'i gostwng i £51.3m gyda chamau gweithredu penodol yn eu lle i fynd i'r afael yn uniongyrchol â gostyngiad hyn ymhlith pwysau gweithredol, costau etifeddol COVID ac arbedion cyflawni. Mae ffocws wythnosol bellach ar waith lle mae'r risgiau wedi'u nodi. <p>Tynnodd Deb Lewis sylw at y pwyntiau canlynol mewn perthynas â pherfformiad.</p> <ul style="list-style-type: none"> - Gofal brys ac argyfwng, canser a gofal wedi'i gynllunio fu'r 	

taflwybrau a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru fel rhan o'r cynllun;

- Nid yw gofal brys ac argyfwng wedi'u cadarnhau eto o safbwynt cyflawni, ond ni chânt eu heffeithio gan elfennau ariannol y cynllun. Mae ffocws ar ofal brys yr un dydd a'r proffil rhyddhau gydag awdurdodau lleol;
- Mae perfformiad gofal wedi'i gynllunio yn dibynnu'n gryf ar y sefyllfa ariannol. Dyma'r prif dargedau: neb yn aros am 52 wythnos ar gyfer apwyntiad cleifion allanol cyntaf erbyn diwedd mis Mehefin; 97% o gleifion i gael eu trin o fewn 104 wythnos erbyn diwedd mis Rhagfyr, a 99% erbyn diwedd mis Mawrth 2024. Bu'r bwrdd iechyd wedi ymrwmo ar yr elfen ddi-orthopedig ond bu cyflawni'r cynllun orthopedig yn dibynnu ar y cynnig a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru, ac roedd ymateb yn dal i gael ei ddisgwyl. Ni all y bwrdd iechyd gadarnhau taflwybrau am y cynlluniau orthopedig yn llawn nes bod cyllid ar gyfer yr uned orthopedig wedi'i gadarnhau. Cyflwynwyd cynllun heriol ond sownd ar sail y cynllun ariannol a nodir uchod, ond ni fyddai hwn yn cyflawni targedau gweinidogaethol ar ofal wedi'i gynllunio ac orthopedeg;
- Cyflwynwyd a chytunwyd ar y taflwybrau canser mewn cyfarfod Bwrdd ym mis Ebrill 2023. Byddai'r ôl-groniad yn cael ei leihau i ychydig dros 200 o gleifion erbyn diwedd mis Mawrth 2024, gan arwain at welliant o darged y llwybr canser sengl o 75%.

Wrth drafod yr adroddiad, codwyd y pwyntiau canlynol

Crynhodd Emma Woollett y drafodaeth ynghylch cynllun ariannol; a ddechreuodd ar £69.9m ac oherwydd yr elfen COVID, y ffigur newydd oedd £86.6m gyda'r risg wedi'i lleihau i £51m yn lle £65m ond gyda'r alldro diffyg arian wedi'i gynllunio yn aros ar £86.6m. Cynghorodd Darren Griffiths nad oedd yn teimlo y gallai leihau'r diffyg ariannol rhagor oherwydd maint y camau gweithredu yr oedd angen eu cyflawni.

Rhoddodd Darren Griffiths wybod y byddai'n parhau cyflwyniad y cynllun yn y ffordd hon drwy'r Pwyllgor Perfformiad a Chyllid i barhau i drafod y rheolaeth risg a'r camau gweithredu y mae angen mynd i'r afael â nhw.

Nododd Steve Spill i Lywodraeth Cymru ofyn am ddewisiadau lleol a newidiadau cenedlaethol/polisi i leihau'r diffyg arian ymhellach. Dywedodd Darren Griffiths ei fod yn dechrau ddefnyddio dewisiadau lleol ar hyn o bryd, ond roedd ganddo sawl syniad ar gyfer GIG Cymru a thrafodaethau polisi ehangach gyda Llywodraeth Cymru.

Mewn perthynas â pherfformiad orthopedig, gofynnodd Emma Woollett beth fyddai'n cael ei wneud pe byddai cyllid rhanbarthol ar gael. Hefyd, gofynnodd beth fyddai maint y bwllch pe na fyddai cyllid yn cael ei dderbyn. Cynghorodd Deb Lewis mai tua 1000 o gleifion yw 1% i'r Bwrdd Iechyd. Y

sefyllfa waethaf ar ddiwedd mis Mawrth 2024, pe na fyddai cyllid yn cael ei dderbyn, fyddai 7500-8000 o gleifion yn torri'r targed hwnnw, h.y. perfformiad o 93% yn lle 99%.

Atgoffodd Darren Griffiths yr aelodau fod y pot adfer gofal wedi'i gynllunio lleol wedi'i gynyddu gan £3.8m ar gyfer arbenigeddau eraill. Ychwanegodd Mark Hackett fod y Bwrdd Iechyd yn hyderus y gallai ddod â rhestrau aros i lawr ym meysydd di-orthopedig gyda'r £3.8m.

Cododd Steve Spill bryder nad oedd yn gweld llwybr neu gyswllt archwilio clir rhwng y ddau ofyn i wella perfformiad gofal wedi'i gynllunio a'r gofyn i leihau'r diffyg arian. Holodd a oedd unrhyw beth ar gael a oedd yn dangos beth mae pob un o'r camau gweithredu hyn yn ei wneud yn nhermau lleihau cost ac yn cael gwared â'r risg o'r diffyg arian.

Cynghorodd Darren Griffiths fod gwybodaeth fanwl y gallai rannu â Steve Spill. Nododd fod yr adroddiad yn gosod y cynlluniau i wario'r arian sydd gennym mewn ffordd well, gan gynyddu ansawdd a diogelwch i gleifion. Cafodd meysydd fel canser, gofal wedi'i gynllunio, iechyd y boblogaeth, strôc ac ail-ddylunio'r gwasanaeth o fewn meddygaeth eu hadnoddu o fewn y cynllun gwreiddiol, a bydd yn symud ymlaen fel y cynlluniwyd. Cynghorodd Emma Woollett y byddai angen trosolwg manwl o hyn ar y Pwyllgor Perfformiad a Chyllid.

Roedd Jean Church yn bryderus fod nifer o elfennau '*i'w cadarnhau*' yn ystody cynllun, a diffyg llwybr archwilio a gwybodaeth. Rhannodd Emma Woollett y pryderon, ond rhoddodd sicrwydd ar ran cydweithwyr Gweithredol fod hon yn sefyllfa sy'n symud yn gyflym.

Crynhodd Emma Woollett, o fewn y cynllun o £86.6m gyda risg o £51m, fod yna ffigurau i gyrraedd y targed gweinidogaethol ar ofal brys ac argyfwng a 93% ar ofal wedi'i gynllunio ar gyfer y targed o 104 wythnos, ond roedd capasiti ychwanegol hefyd yn Ysbyty CNPT ar gyfer orthopedeg os bydd gan y bwrdd iechyd fynediad at arian rhanbarthol.

Mewn perthynas â pherfformiad Canser, gofynnodd Emma Woollett a oedd gan y Bwrdd Iechyd gynlluniau i fodloni targedau Gweinidogaethol. Cadarnhaodd Deb Lewis hyn, gan ddweud bod targedau'n synhwyrol a bod hyder ynghylch eu cyflawni. Prin iawn oedd y risg yn nhermau cyllid, Canser oedd blaenoriaeth ar draws pob cynllun. Roedd un maes i dynnu sylw ato yn nhermau risg perfformiad, sef gynaecoleg, ond mae'n debyg na fydd hyn yn effeithio ar gyflawni perfformiad cyffredinol.

Derbyniodd aelodau'r bwrdd y diffyg arian fel y'i cyflwynwyd, a gwerthfawrogasant fod y risg wedi'i lleihau. Roedd aelodau'r Bwrdd yn hapus bod y taflwybrau i ddiwallu blaenoriaethau Gweinidogaethol o fewn y cynllun a ariennir ar hyn o bryd, ac eithrio orthopedeg. Byddai'r Bwrdd yn aros i weld y taflwybrau ar gyfer gofal wedi'i gynllunio gyda chyllid a heb gyllid. Cytunwyd y byddai taflwybrau terfynol yn cael eu cylchredu i

	aelodau'r Bwrdd unwaith iddynt gael eu terfynu, o fewn y fformat a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru.	
Penderfyniad:	<ul style="list-style-type: none"> - Byddai tafllwybrau terfynol yn cael eu cylchredu i aelodau'r Bwrdd unwaith iddynt gael eu terfynu, o fewn y fformat a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru - Roedd Aelodau'r Bwrdd yn hapus i gyflwyno'r cynllun. 	DL
105/23	UNRHYW FUSNES ARALL	
	Ni chafwyd unrhyw fusnes arall a daethpwyd â'r cyfarfod i ben.	
106/23	DYDDIAD CYFARFOD NESAF Y BWRDD	
	Cadarnhawyd mai dyddiad y cyfarfod nesaf fyddai dydd Iau, 27 Gorffennaf 2023.	